

Ydw i'n gwneud hyn yn fy ngwersi?

1.	Ydw i'n adolygu gwaith blaenorol? h.y. Ydw i'n adeiladu ar beth maen nhw'n wybod yn barod?	
2.	Ydw i'n cyflwyno iaith newydd iddyn nhw?	
3.	Ydw i'n gwirio eu bod nhw'n deall ystyr geiriau? Ydw i'n gallu gwneud hyn heb droi at y Saesneg?	
4.	Ydw i'n cyflwyno'r eirfa newydd mewn ffordd glir?	
5.	Ydw i'n rhoi digon o gyfle i'r plant ddrilio'r iaith darged cyn symud i waith pâr?	
6.	Ydw i'n dangos y patrwm cwestiwn ac ateb iddyn nhw?	
7.	Oes ganddyn nhw enghraifft weledol o'r iaith darged? e.e. ar fat iaith, neu ar y bwrdd gwyn.	
8.	Ydw i'n rhoi enghreifftiau o'r iaith darged iddyn nhw cyn gwaith pâr neu waith grŵp?	
9.	Ydw i'n bwydo'r iaith maen nhw angen i wneud y gweithgareddau iddyn nhw?	
10.	Ydw i'n modelu mwy nag egluro?	
11.	Ydw i'n gwirio eu bod nhw'n deall y cyfarwyddiadau?	
12.	Oes pwrpas ieithyddol i fy ngweithgareddau?	
13.	Oes digon o bwyslais ar gyfathrebu yn y wers?	
14.	Ydy'r plant yn cael <u>digon o gyfle i ddefnyddio'r</u> iaith darged yn y wers?	
15.	Ydy'r plant yn defnyddio'r iaith mewn ffordd ystyrlon?	
16.	Ydw i'n monitro ac yn holi cwestiynau yn ystod gweithgareddau?	
17.	Ydw i'n ymestyn y plant o fewn rheswm?	
18.	Ydw i'n cael adborth grŵp ar bob cam o'r wers cyn symud ymlaen?	